SUL Y DRINDOD

GENESIS 1:1–2:4A; SALM 8;
2 CORINTHIAID 13:11-13; MATHEW 28:16-20

● **Gweddi agoriadol**
Bydded i gariad y Tad,
tynerwch y Mab
a phresenoldeb yr Ysbryd
lonni ein calonnau
wrth i ni gyfarfod i addoli,
a dod â heddwch i'n heneidiau
heddiw a phob dydd.

● **Moliant**
Dduw Greawdwr, gwelwn fflach o'th harddwch
mewn machlud haul a brig y mynydd.
Synhwyrwn dy rym yn y daran,
yn y mellt a rhuthr tonnau.

Arweinydd: Dduw Greawdwr
Pawb: Molwn di.

Werthfawr Iesu, gwelwn dy gariad
yn ymestyn ar led ar groes greulon.
Syllwn mewn rhyfeddod ar dy aberth,
cariad wedi'i dywallt dros y ddynoliaeth.

Arweinydd: Werthfawr Iesu
Pawb: Molwn di.

Ysbryd Glân, gwelwn dy rym
mewn bywydau newydd a chalonnau ar dân.
Gwrandawn am dy lef ddistaw fain,
yn cysuro, yn arwain, yn galw.

Arweinydd: Ysbryd Glân
Pawb: Molwn di.

● **Cyffes**
Ar adegau ein hamau
a'n diffyg cred,
pan fydd pwysau daearol
neu amgylchiadau
yn rhoi pellter rhyngom,
tyrd yn nes, fe erfyniwn.

Atgoffa ni o'r gras
ddaeth atom ar y dechrau,
cariad y Tad,
anadl yr Ysbryd.
Rho i ni ddewrder,
ffydd sy'n dal,
a gwybod yn sicr
dy fod ti gyda ni
heddiw a phob amser,
byth ymhellach
na sibrwd gweddi.

● Diolch

O achos gogoniant y nefoedd uwch ein pennau,
a mawrhydi y ddaear o'n cwmpas,
a dirgelion anhygoel y cread,
sefwn mewn syndod a rhyfeddod
a chyflwyno ein diolch i ti.

O achos dy gariad sy'n fendith ddyddiol i ni,
a diogelwch dy freichiau yn ein cofleidio
a dirgelwch dy ras yn cael ei arllwys trosom,
sefwn mewn syndod a rhyfeddod
a chyflwyno ein diolch i ti.